Dogfen ir Cyhoedd

Mrs Annwen Morgan
Prif Weithredwr – Chief Executive
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | NOTICE OF MEETING |
|---|---|
| **PWYLLGOR CYSWLLT Y SECTOR GWIRFODDOL** | **VOLUNTARY SECTOR LIAISON COMMITTEE** |
| **DYDD MAWRTH, 3 MAWRTH 2020 am 2.00 o'r gloch** | **TUESDAY, 3 MARCH 2020 at 2.00 pm** |
| **YSTAFELL BWYLLGOR 1 SWYDDFEYDD Y CYNGOR LLANGEFNI** | **COMMITTEE ROOM 1 COUNCIL OFFICES LLANGEFNI** |

| Swyddog Pwyllgor | Mrs Shirley Cooke 01248 752514 | Committee Officer |
|---|---|---|

**AELODAU / MEMBERS**

**CYNGOR SIR YNYS MÔN / ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL**

Cynghorwyr/Councillors Kenneth P Hughes, Gwilym O Jones, R Meirion Jones, Llinos Medi, Alun Mummery

**SECTOR GWIRFODDOL / VOLUNTARY SECTOR**

Mr Islwyn Humphreys (Samariaid/Samaritans)
Mr Andrew M Hughes (Medrwn Môn)
Mr Aled Evans (Age Cymru – Gwynedd & Môn)
Mr Alwyn Rowlands (Canolfan Hamdden Beaumaris a'r Cylch/Beaumaris Leisure Centre and District)
Mrs Llinos Williams (Caru Amlwch)

**IECHYD / HEALTH**

Mr Wyn Thomas (BIPBC/BCUHB)
Mrs Ffion Johnstone

# R H A G L E N

1 **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn datganiad o ddiddordeb gan Aelod neu Swyddog mewn perthynas ag unrhyw eitem o fusnes.

2 **COFNODION** (Tudalennau 1 - 4)

Cyflwyno cofnodion drafft y cyfarfod blaenorol o’r Pwyllgor Cyswllt a gynhaliwyd ar 20 Tachwedd 2019.

3 **CYTUNDEB PARTNERIAETH YNYS MÔN** (Tudalennau 5 - 6)

Derbyn diweddariad ar yr uchod gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol.

4 **POLISI GWIRFODDOLI CYNGOR SIR YNYS MÔN** (Tudalennau 7 - 12)

Derbyn diweddariad ar yr uchod gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol.

5 **DATBLYGU STRATEGAETH ATALIOL** (Tudalennau 13 - 22)

Y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol I gyflwyno trosolwg ar y Strategaeth Ataliol.

6 **BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH** (Tudalennau 23 - 36)

Cyflwyno er gwybodaeth, adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd, fel y’i cyflwynwyd i’r Pwyllgor Gwaith ar 17 Chwefror 2020.

7 **CYFARFOD NESAF**

Cynhelir cyfarfod nesaf y Pwyllgor Cyswllt am 2.00 o’r gloch y prynhawn, dydd Mawrth, 14 Gorffennaf 2020.

# Pwyllgor Cyswllt y Sector Gwirfoddol

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Tachwedd 2019

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Mr Islwyn Humphreys (Samariaid) (Cadeirydd) |
| | **Awdurdod Lleol** |
| | Y Cynghorwyr Kenneth P Hughes, Gwilym O Jones, R Meirion Jones, Llinos Medi, Alun Mummery |
| | **Sector Gwirfoddol** |
| | Mr Aled Evans (Age Cymru - Gwynedd a Môn)<br>Mr Andrew M Hughes (Medrwn Môn)<br>Mr Alwyn Rowlands (Medrwn Môn) |
| **WRTH LAW:** | Mr Alwyn R Jones (Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol)<br>Mr J Huw Jones (Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd – CSYM) (Cadeirydd ar gyfer Eitemau 1 & 2)<br>Mrs Sian Purcell (Medrwn Môn)<br>Mr Dafydd Bulman (Rheolwr Trawsnewid Strategol a Busnes)<br>Mrs Lindsey Williams (Medrwn Môn)<br>Mrs Shirley Cooke (Swyddog Pwyllgor) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Mr Iwan Jones (BIPBC) |

---

### 1. CADEIRYDD

Etholwyd Mr Islwyn Humphreys yn Gadeirydd y Pwyllgor Cyswllt hyd at ddiwedd Mawrth 2020.

### 2. IS-GADEIRYDD

Etholwyd y Cynghorydd Alun Mummery yn Is-gadeirydd y Pwyllgor Cyswllt hyd at ddiwedd Mawrth 2020.

### 3. DATGANIAD O DDIDDORDEB

Ni chafwyd yr un datganiad o ddiddordeb.

### 4. COFNODION

Cyflwynwyd a chadarnhawyd fel rhai cywir, cofnodion y cyfarfodydd o’r Pwyllgor Cyswllt a gynhaliwyd ar y dyddiadau canlynol:-

- 9 Chwefror 2019
- 27 Gorffennaf 2019

## 5. CYTUNDEB PARTNERIAETH YNYS MÔN

Dywedodd y Rheolwr Trawsnewid Strategol a Busnes fod Compact Ynys Môn wedi cael ei ddiweddaru a'i symleiddio'n ddiweddar a bod ei enw wedi cael ei newid i Gytundeb Partneriaeth Ynys Môn.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol yr hoffai weld y Cyngor yn ymrwymo i 5 neu 6 o amcanion er mwyn cryfhau'r Cytundeb Partneriaeth. Dywedodd fod angen i bwrpas y Cytundeb fod yn fwy positif gyda'r Cyngor yn mabwysiadu ymagwedd fwy cadarn gan ddefnyddio datganiadau fel "byddwn", "byddwch", "gyda'n gilydd, byddwn".

Gofynnodd y Sector Gwirfoddol am eglurder mewn perthynas â'i rôl o ran y Cyngor ac fel arall. Nodwyd y byddai'r Sector Gwirfoddol yn cefnogi'r Cyngor i drosglwyddo ei negeseuon i'r gymuned.

Nodwyd ymhellach fod Medrwn Môn wedi trafod perthynas y Pwyllgor Cyswllt gyda'r Bwrdd Ymgynghori ac Ymgysylltu a sefydlwyd gan y Cyngor. Mae Medrwn Môn wedi cytuno i gyflwyno ei gynigion i'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol sydd, yn ei dro, wedi cytuno i rannu amcanion y Cyngor gyda'r Pwyllgor ymhen 3 neu 4 wythnos.

Dywedodd Prif Swyddog Medrwn Môn bod y Sector Gwirfoddol yn teimlo'n analluog i ddylanwadu ar gyllidebau mewn perthynas â'r ymagwedd bartneriaethol, yn enwedig o ran y Bwrdd Iechyd.

Cafwyd trafodaeth ynghylch arfer dda er mwyn sicrhau bod y Bwrdd Iechyd yn cyflawni ei rôl yn y Cytundeb Partneriaeth. Awgrymwyd y dylid sefydlu cynllun cydweithio er mwyn mynd i'r afael â'r mater hwn.

**PENDERFYNWYD:-**

- **Bod Medrwn Môn yn anfon ei gynigion mewn perthynas â'r Cytundeb Partneriaeth ymlaen i'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol.**
- **Bod y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol:-**
  - **yn gweithredu ar adborth gan Medrwn Môn; ac,**
  - **yn paratoi amcanion y Cyngor mewn perthynas â'r Cytundeb Partneriaeth; ac**
  - **yn anfon y Cytundeb drafft i'r Pwyllgor ymhen 3-4 wythnos ar gyfer ei gymeradwyo.**
- **Bod y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol yn cyflwyno fersiwn derfynol Cytundeb Partneriaeth Ynys Môn i'r Sector Gwirfoddol yn ei gyfarfod nesaf ym mis Mawrth 2020.**

## 6. POLISI GWIRFODDOLI CYNGOR SIR YNYS MÔN

Dywedodd y Rheolwr Trawsnewid Strategol a Busnes fod Polisi Gwirfoddoli'r Cyngor wedi cael ei ddiweddaru mewn perthynas â diogelu a hyfforddiant ar gyfer gwirfoddolwyr. Bydd angen diweddaru'r Polisi ymhellach i gynnwys sylwadau a wnaed gan Adran Adnoddau Dynol y Cyngor yn y man.

Bydd Polisi Gwirfoddoli'r Cyngor yn cael ei adolygu'n flynyddol gan y Pwyllgor Cyswllt fel rhan o'i gylch gorchwyl i weithredu'r egwyddorion yn y Cytundeb Partneriaeth.

**PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth a gyflwynwyd.**

## 7. CÔD YMARFER YNYS MÔN AR GYFER ARIANNU'R TRYDYDD SECTOR

Dywedodd y Rheolwr Trawsnewid Strategol a Busnes bod y Côd Ymarfer a fabwysiadwyd gan y Cyngor wedi cael ei ddiweddaru'n ddiweddar gan yr Adran Gyllid. Awgrymwyd y dylai'r Cytundeb Partneriaeth a'r Côd Ymarfer gael eu cyfuno'n un ddogfen.

Codwyd pryderon ynghylch amseriad cyllid grant allanol ar gyfer y Sector Gwirfoddol. Dywedodd Prif Swyddog Medrwn Môn ei bod yn ofynnol dan y Côd i'r Cyngor roi tri mis o rybudd ynghylch unrhyw grantiau sydd ar gael. Fodd bynnag, nid yw'r polisi hwn yn ymwneud ag unrhyw grantiau sydd y tu allan i reolaeth y Cyngor.

**PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth a gyflwynwyd.**

## 8. CYLCH GORCHWYL Y PWYLLGOR

Cyflwynodd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd Gylch Gorchwyl y Pwyllgor er mwyn adolygu ei gynnwys. Dywedodd bod angen newid y term 'Bwrdd Iechyd' yn Adran 2 i 'BIPBC'.

Gofynnwyd am esboniad pam fod y gair 'ethol' yn cael ei ddefnyddio i benodi cynrychiolwyr o'r Sector Gwirfoddol ar y Pwyllgor Cyswllt. Cytunodd y Pwyllgor newid y gair i 'enwebu'.

Eglurodd Prif Swyddog Medrwn Môn nad yw aelodaeth y Pwyllgor Cyswllt ond yn cael ei adnewyddu pan ddaw seddi'n wag. Trafododd y Pwyllgor a ddylai newid ei aelodaeth yn fwy rheolaidd a pha mor aml y dylid cynnal cyfarfodydd. Cytunwyd parhau â'r system bresennol o benodi aelodau newydd pan ddaw seddi'n wag, a chynnal cyfarfodydd 'hyd at 3 gwaith y flwyddyn'.

Nodwyd bod dau gynrychiolydd newydd wedi cael eu penodi i wasanaethu ar y Pwyllgor Cyswllt, sef Mr Aled Evans o Age Cymru - Gwynedd a Môn, a Mr Iwan Jones, Swyddog Corfforaethol o BIPBC.

Mynegodd y Pwyllgor bryderon ynghylch diffyg presenoldeb y Bwrdd Iechyd mewn cyfarfodydd. Cytunodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol fynd ar ôl mater ei swyddogaeth yn y Cytundeb Partneriaeth gyda'r Bwrdd Iechyd. Awgrymodd fod y Pwyllgor yn ystyried enwebu ail aelod o'r Bwrdd Iechyd i wasanaethu ar y Pwyllgor, o dîm sy'n cael ei arwain gan Ffion Johnstone, ac sy'n gweithio'n lleol ar Ynys Môn.

Dywedodd Prif Swyddog Medrwn Môn fod Ann Griffith, Dirprwy Gomisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru sydd wedi ei nodi fel sylwedydd yn y Pwyllgor hwn, wedi mynegi awydd i fynychu cyfarfodydd.

**PENDERFYNWYD:-**



- **Gweithredu ar y newidiadau a nodir uchod o ran Cylch Gorchwyl y**

**Pwyllgor Cyswllt.**

- **Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol i ymgynghori gyda BIPBC o ran ei rôl yn y Cytundeb Partneriaeth a'r Pwyllgor Cyswllt.**
- **Bod Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol yn enwebu ail aelod o BIPBC i wasanaethu ar y Pwyllgor Cyswllt.**
- **Bod pwynt 1.7 y Cylch Gorchwyl yn cael ei ddiwygio i ddarllen 'bod cofnodion Pwyllgor Cyswllt y Sector Gwirfoddol yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith yn y man.**
- **Ymestyn gwahoddiad i Ddirprwy Gomisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru i fynychu cyfarfodydd y Pwyllgor Cyswllt.**

## 9. BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyflwynwyd er gwybodaeth – Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith am y cyfnod Tachwedd 2019 i Fehefin 2020.

Dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd fod y Rhaglen Waith yn cael ei hadolygu a'i chyflwyno'n fisol i'r Pwyllgor Gwaith.

**PENDERFNWYD nodi'r Rhaglen Waith.**

## 10. CYFARFOD NESAF

Cytunwyd y bydd y cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor Cyswllt yn cael ei gynnal am 2.00pm ar ddydd Mawrth, 3 Mawrth 2020.

Daeth y cyfarfod i ben am 3.05 pm

**MR ISLWYN HUMPHREYS**
**CADEIRYDD**

# Cytundeb Gwasanaeth â Sector Gwirfoddol Ynys Môn

**Ymrwymiadau Cyngor Sir Ynys Môn**

1. Bydd yr holl ymarferion ymgynghori perthnasol ar ddyfodol gwasanaethau a newidiadau sylweddol yn y gwasanaethau yn cynnwys sefydliadau lleol neu sefydliadau gwirfoddol perthnasol.
2. Cynnal y Bwrdd Ymgysylltu ac Ymgynghori yn unol â’r Cylch Gorchwyl.
3. Sicrhau gweithdrefnau adrodd y Bwrdd Ymgysylltu/Ymgynghori (Cynllunio Lle) a'r adroddiad Grŵp 3ydd Sector i Bwyllgor Cyswllt y Sector Gwirfoddol.
4. Bydd y sector gwirfoddol yn cael ei hysbysu am yr holl gynigion o grantiau a wneir i’r Cyngor neu bartneriaid cysylltiedig gan Lywodraeth Cymru ac eraill. Yn fwy na hynny, bydd y Cyngor yn darparu’r sector â chyfleoedd i ymgeisio am gyllid o fewn y grantiau hynny lle mae hynny’n cael ei ganiatáu.

5. Bydd yr holl sefydliadau sector gwirfoddol sy’n darparu gwasanaethau, yn cael eu gwneud yn ymwybodol o dendrau gwasanaeth drwy’r wybodaeth a ddarperir drwy Rwydwaith y Trydydd Sector.

6. Bydd unrhyw wybodaeth berthnasol ar gyfer grwpiau a sefydliadau cymunedol yn cael ei rhannu â’r sector gwirfoddol drwy Rwydwaith y Trydydd Sector.

**Ymrwymiadau Cynghorau Gwirfoddol Sirol (CVC) (Medrwn Môn)**

1. Bydd Medrwn Môn yn gweithredu fel dolen gyswllt i’r sector gwirfoddol yn Ynys Môn. Pan fydd y Cyngor yn cyfeirio gwybodaeth at Medrwn Môn, fe gymerir y bydd y sefydliad yn pasio’r holl wybodaeth berthnasol ymlaen at unrhyw bartneriaid sector gwirfoddol perthnasol neu’r holl bartneriaid sector gwirfoddol.

2. Lle bydd cyfleoedd tendr neu grant ar gyfer sefydliadau sector gwirfoddol bydd Medrwn Môn yn rhannu’r wybodaeth honno â’r holl sefydliadau ond bydd hefyd yn ystyried targedu ac annog sefydliadau perthnasol i ymateb i’r cyfleoedd hyn.

3. Bydd Medrwn Môn yn darparu cyngor arbenigol neu’n cyfeirio sefydliadau at gyngor arbenigol er mwyn iddynt allu ymateb i gyfleoedd grant o’r fath.

4. Bydd Medrwn Môn yn sicrhau cyfathrebu rheolaidd ac wedi’i gynllunio gyda’r sector mewn perthynas â gwybodaeth genedlaethol neu leol.

5. Pecyn gwirfoddoli – gweithio gyda chyflogwyr ar yr Ynys i gynnig gwybodaeth am gyfleoedd gwirfoddoli ar ôl ymddeol – Wedi'i gynnwys yng Nghynllun Gweithredu Pwyllgor Cyswllt y Sector Gwirfoddol.

**Ymrwymiadau Sector Gwirfoddol**

1. Bydd sefydliadu Sector Gwirfoddol yn annog dinasyddion o fewn ardaloedd lleol i wirfoddoli o fewn eu hardaloedd lleol neu o fewn ardaloedd arbenigol er mwyn cefnogi'r boblogaeth ehangach.

2. Bydd sefydliadau sector gwirfoddol yn edrych i ddarparu cymorth i unigolion, yn cyd-fynd â'r rheini a gynigir drwy bartneriaid statudol ac yn adlewyrchu eu rolau unigryw o fewn cymunedau.

3. Bydd sefydliadau sector gwirfoddol yn aneli at gefnogi eu cymunedau o fewn cyd-destun 7 diwrnod a thu allan i oriau swyddfa arferol – Cynnwys yng Nghynllun Gweithredu Pwyllgor Cyswllt y Sector Gwirfoddol.

**Polisi Gwirfoddoli Cyngor Sir Ynys Môn**

**1. Cwmpas**

Hwn yw Polisi Gwirfoddoli Cyngor Sir Ynys Môn. Mae'r polisi'n ategu'r egwyddorion a geir yn y cytundeb partneriaeth a sefydlwyd gan Gyngor Sir Ynys Môn a Medrwn Môn mewn perthynas â gwirfoddoli. Mae'n darparu fframwaith ar gyfer datblygu nodau ac amcanion ar y cyd, parch a chyd-ddealltwriaeth fydd yn helpu partneriaid yn y sector cyhoeddus a'r sector gwirfoddol i wella ansawdd bywyd trigolion Ynys Môn.

**2. Datganiad Polisi**

Mae'r Cyngor yn cydnabod bod gwirfoddolwyr yn gallu gwneud cyfraniad gwerthfawr i'r sefydliad. Mae gwirfoddolwyr yn dod â gwahanol brofiadau, cefndiroedd, oedran a meddylfryd a gall hynny ychwanegu gwerth at y gwasanaethau a ddarperir. Bydd y polisi hwn yn:

- Gadael i wirfoddolwyr wybod sut byddwn yn sicrhau tegwch a chysondeb
- Cynnig sicrwydd o ran gwybod sut byddant yn cael eu trin
- Helpu staff a gwirfoddolwyr i ddeall rolau'r naill a'r llall

Yn ogystal, mae'r polisi hwn yn nodi'r egwyddorion cyffredinol ar gyfer gweithio gyda gwirfoddolwyr o fewn y Cyngor mewn ffordd deg a chyfiawn. Ei nod yw sicrhau bod y gwirfoddolwyr a'r Cyngor yn manteisio i'r eithaf ar fanteision gwirfoddoli. Mae'n berthnasol i bawb o fewn y Cyngor, gan gynnwys gwirfoddolwyr, staff ac aelodau etholedig.

**3. Diffiniad**

Mae gwirfoddoli yn fynegiant pwysig o ddinasyddiaeth yn ogystal â bod yn elfen bwysig o ddemocratiaeth. Mae gwirfoddolwyr yn bobl sydd, o'u gwirfodd a heb dderbyn tâl, yn cyfrannu eu hamser, eu hegni a'u sgiliau er budd y Gymuned. Gall gwirfoddoli ddigwydd dros gyfnod penodol (er enghraifft, cynorthwyo i gwblhau prosiect neu ddigwyddiad arbennig), neu am gyfnod parhaus (er enghraifft, cynorthwyo i ddarparu gwasanaeth penodol o ddydd i ddydd).

Mae'r Cyngor yn cydnabod ei gyfrifoldeb i drefnu ei weithgareddau gwirfoddoli yn effeithiol ac yn sensitif fel bod y defnydd gorau'n cael ei wneud o rodd werthfawr y gwirfoddolwr o'i amser er lles pawb.

Mae rhai enghreifftiau isod o sut mae gwirfoddolwyr yn cyfrannu at waith y Cyngor:
- Chwaraeon a chefnogi chwaraeon
- Cynlluniau cludiant
- Cynlluniau rheoli cefn gwlad
- Eiriolaeth (Gwasanaethau Cymdeithasol)

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i gynnwys gwirfoddolwyr mewn rolau addas ac mewn ffyrdd sy'n rhoi anogaeth a chefnogaeth iddynt ac yn datblygu gwirfoddoli.

**4. Pam cael Polisi?**

Mae polisi ysgrifenedig yn rhoi cydnabyddiaeth ffurfiol i bwysigrwydd gwirfoddolwyr ac yn sicrhau bod yr amcanion canlynol yn cael eu cwrdd:

- Mae gwirfoddolwyr yn cymryd rhan mewn gweithgareddau addas drwy ddilyn trefn ddethol briodol sy'n cynnwys derbyn geirdaon ac, yn ôl yr angen, cael gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS).
- Mae gwirfoddolwyr yn cael eu croesawu, maent yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi ac mae'r gwasanaeth dan sylw yn darparu hyfforddiant cynefino perthnasol iddynt.
- Manteisir i'r eithaf ar gyfraniadau gwirfoddolwyr drwy ddarparu hyfforddiant a chefnogaeth briodol.
- Mae mwy o bobl yn cael eu hannog i fod yn wirfoddolwyr.
- Mae mwy o wirfoddolwyr yn dal ati gyda'r gwaith.

Bydd y polisi hwn yn helpu pob aelod o staff sydd yn gyfrifol am recriwtio a rheoli gwirfoddolwyr i ddilyn arfer da ac i gefnogi gwirfoddolwyr mewn modd sydd wedi'i gynllunio a'i reoli.

Bydd gan bob ysgol ei pholisi ei hun ar gyfer Gwirfoddolwyr.

**5. Beth yw manteision defnyddio Gwirfoddolwyr?**

- Gellir tynnu ar brofiadau a sgiliau a'u datblygu er mwyn cael effaith gadarnhaol ar amryw o wasanaethau a phrosiectau.
- Gall gwirfoddolwyr fod yn hyblyg ac yn arloesol o ran eu hymagwedd.
- Mae gwirfoddolwyr yn gwella'r synnwyr o Gymuned ac yn helpu i adeiladu cymdeithas gynhwysol.
- Mae'r Gymuned a'r amgylchedd yn elwa o gyfraniad y gwirfoddolwyr.

**6. Egwyddorion**

**6.1 Recriwtio a Dethol**

Mae'r Cyngor yn ceisio recriwtio gwirfoddolwyr o bob rhan o'r gymuned sydd ag ystod eang o sgiliau, profiadau bywyd a gwybodaeth.

Fel arfer, bydd gwirfoddolwyr yn cael eu recriwtio drwy osod hysbysebion mewn taflenni, cylchlythyrau ac ar wefan y cyngor. Mae modd recriwtio drwy wneud cysylltiad anffurfiol gyda'r gymuned bresennol o ddefnyddwyr.

Cynhelir cyfweliad/trafodaeth anffurfiol gyda'r holl ddarpar wirfoddolwyr i drafod eu sgiliau, swyddogaethau a disgwyliadau. Bydd y broses ddethol yn dilyn yn fras y prosesau a amlinellir ym Mholisi Recriwtio a Dethol yr Awdurdod (lle bo'n briodol), fydd yn cynnwys derbyn geirdaon a chael gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS), os yw'n berthnasol.

**6.2 Statws Gwirfoddolwyr**

Nid yw gwirfoddolwyr yn gyflogeion nac yn weithwyr ac ni fydd ganddynt gytundeb cyflogaeth gyda'r Cyngor. Bydd yr holl waith gwirfoddol a wneir yn ddi-dâl. Bydd y Cyngor yn cytuno ar rôl gyda'r gwirfoddolwr a disgwylir i'r gwirfoddolwr fodloni gofynion y rôl ac i'r Cyngor ddarparu gwaith i'r gwirfoddolwr, os oes gwaith ar gael. Fodd bynnag, mae hawl gan y gwirfoddolwr i wrthod â chyflawni'r rôl ac nid oes rheidrwydd ar y Cyngor i ddarparu'r gwaith.

Noder: Nid yw'r polisi hwn yn berthnasol i ofalwyr maeth.

**6.3 Rôl Gwirfoddolwyr**

Cyfrifoldeb y rheolwr sy'n gweithio gyda'r gwirfoddolwr yw llunio amlinelliad o rôl y gwirfoddolwr. Bydd hyn yn amlinellu cyfrifoldebau'r rôl a'r sgiliau a'r profiad angenrheidiol, yn ogystal ag unrhyw hyfforddiant sydd ei angen, cyn y gellir ymgymryd â'r gwaith gwirfoddol. Dylai gwaith gwirfoddol ategu gwaith staff cyflogedig a darparu gwerth ychwanegol er budd defnyddwyr gwasanaeth.

Ni fwriedir i wirfoddolwyr gymryd lle gweithwyr cyflogedig, felly rhaid gochel rhag gosod gofynion gormodol ar ein gwirfoddolwyr, a sicrhau nad ydynt yn gwneud gwaith y byddai staff cyflogedig yn ei wneud yn arferol.

**6.4 Goruchwylio a Chefnogaeth**

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i ddatblygu gwybodaeth, sgiliau ac effeithiolrwydd ei wirfoddolwyr.
Bydd hyn yn cael ei gyflawni drwy ddarparu:

- Hyfforddiant a chyfleoedd datblygu priodol
- Gwaith ystyrlon o fewn blaenoriaethau'r gwasanaeth
- Goruchwyliaeth effeithiol
- Cydnabyddiaeth o'r gwaith a gyflawnwyd
- Targedau a blaenoriaethau clir a safonau priodol ar gyfer y gwaith a ddyrannwyd

Bydd hawl gan wirfoddolwyr i dderbyn geirda gan y Cyngor. Mae hyn ar yr amod bod y gwirfoddolwr yn cwblhau o leiaf 30 awr o waith gwirfoddol i safon dderbyniol tra eu bod yn gweithio'n uniongyrchol ar ran y Cyngor.

**6.5 Cyfrinachedd**

Lle bo'n briodol, bydd rhaid i wirfoddolwyr lofnodi cytundeb cyfrinachedd a bydd hyn yn cael ei drefnu gan y swyddog recriwtio ym mhob gwasanaeth.

**6.6 Proses Gwynion**



DRAFT

DRAFT

Dylai gwirfoddolwyr godi unrhyw bryderon neu broblemau gyda'i goruchwyliwr neu reolwr uniongyrchol.

**6.7 Treuliau**

Lle bo'n briodol, bydd y Cyngor yn cynnig ad-dalu costau teithio rhesymol gwirfoddolwyr rhwng eu cartref a'r lle gwaith. Mae lwfans milltiroedd o 22.5 ceiniog y filltir wedi'i osod ar gyfer gwirfoddolwyr sy'n defnyddio eu cludiant eu hunain. Bydd rhaid cytuno ar yr holl dreuliau ymlaen llaw gyda goruchwyliwr neu reolwr uniongyrchol y gwirfoddolwr.

**6.8 Rhybudd**

Dylai'r Cyngor neu'r gwirfoddolwr geisio rhoi cymaint â phosib o rybudd o'u bwriad i ddod â'r cytundeb gwirfoddoli i ben.

**7. Cydymffurfio gyda pholisïau, gweithdrefnau a phrotocolau'r Cyngor**

Mae nifer o faterion penodol yn berthnasol i'r polisi gwirfoddoli hwn:

**7.1 Cydraddoldeb ac Amrywiaeth**

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i gydraddoldeb ac amrywiaeth, wrth ddarparu gwasanaethau ac fel cyflogwr mawr, ac i gael gwared â gwahaniaethu annheg neu anghyfreithlon yn ein holl bolisïau, gweithdrefnau ac arferion. Mae'r Cyngor yn trin pawb gyda'r un parch, gofal ac ystyriaeth ac mae'n cydnabod y cyfraniad gwerthfawr y mae pob unigolyn yn ei wneud i Ynys Môn. Disgwylir i wirfoddolwyr dderbyn yr egwyddorion hyn ac i weithio yn unol â nhw.

**7.2 Cynllun yr Iaith Gymraeg**

Mae'r Cyngor yn cydnabod bod gan y Gymraeg a'r Saesneg statws cyfartal. Cymraeg a Saesneg fydd ieithoedd swyddogol y Cyngor a rhoddir yr un statws a dilysrwydd iddynt yng ngweinyddiaeth a gwaith y Cyngor. Bydd disgwyl i wirfoddolwyr fod yn ymwybodol o'r egwyddor hon.

**7.3 Iechyd a Diogelwch**

Mae'r Cyngor yn gyfrifol am iechyd a diogelwch gwirfoddolwyr. Mae'n rhaid trin gwirfoddolwyr yn yr un modd â gweithwyr cyflogedig mewn perthynas ag iechyd a diogelwch. Mae'n rhaid i wirfoddolwyr ddilyn polisïau a gweithdrefnau iechyd a diogelwch y Cyngor bob amser. Mae'n rhaid i berson cymwys gynnal asesiad risg penodol ar gyfer pob maes gwaith a rôl lle defnyddir gwirfoddolwyr a rhoi copi ohono i'r gwirfoddolwr. Mae dyletswydd ar wirfoddolwyr i ofalu amdanyn nhw eu hunain a phobl eraill a all gael eu heffeithio gan eu gweithredoedd. Ni ddylai gwirfoddolwyr weithredu tu allan i'w maes gwaith neu ddyletswyddau awdurdodedig. Rhaid i wirfoddolwyr ddweud wrth eu goruchwyliwr am bob damwain neu ddamwain fu bron a digwydd.

**7.4 Polisïau Diogelu**

Mae'n rhaid i wirfoddolwyr gydymffurfio â pholisïau a phrotocolau Diogelu'r Cyngor mewn perthynas â phobl fregus.

**7.5 Yswiriant**

**7.5.1 Cyffredinol**

Bydd Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus y Cyngor yn indemnio gwirfoddolwyr tra byddant yn ymgymryd â'u dyletswyddau.

**7.5.2 Gyrwyr**

Rhaid i unrhyw un sy'n gweithredu fel gwirfoddolwr ar ran y Cyngor sydd angen defnyddio cerbyd (preifat neu gerbyd y Cyngor) gydymffurfio â Pholisi Fflyd a Gyrwyr y Cyngor.

**7.6 Gwiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS)**

Os yw'r gweithgaredd gwirfoddoli yn ymwneud â phlant a phobl ifanc dan 18 oed neu oedolion bregus, cynghorir y gwirfoddolwr bod rhaid iddynt ddarparu tystysgrif DBS Uwch. Bydd adran berthnasol y Cyngor yn darparu canllawiau ynglŷn â hyn.

DRAFT

This page is intentionally left blank

# Strategaeth Ataliol– Trosolwg
## Cyngor Sir Ynys Mon/Anglesey County Council

**Alwyn Jones,**
**Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol/ Director of Social Services**

www.ynysmon.gov.uk
www.anglesey.gov.uk

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

# Datblygu Strategaeth Ataliol/ Developing A Prevention Strategy

- Strategaeth Draft wedi ei lunio
- Yw cytuno drwy broses llywodraethiant
- Cytuno erbyn Mai
- Swyddog Arweiniol erbyn Ebrill
- Cynllun Blynyddol I ddilyn
- Sgriwtini blynyddol I ddilyn
- Bwrdd Ataliol

- Draft Strategy in Place
- To be agreed through council governance
- Agreed by May
- Lead officer by April
- Yearly Plan to follow
- Yearly scrutiny to follow
- Preventio Board

# Egwyddor Craidd/ Core Principle

*'Cefnogi a helpu pobl i helpu eu hunain o fewn eu cymunedau mewn partneriaeth a rhanddeiliad eraill- parthed gwydnwch ac annibynniaeth"*

*Support and help people to help themselves within their communities and in partnership with other stakeholders- in the context of resilience and independence"*

# Cychwyn Gorau I blant/ Best Start for children

- Gwybodaeth I rhai mewn angen
- Cefnogi Gofalwyr ifanc
- Cefnogi cynllun dechrau yn deg
- Ymgymryd a dyletswydd stadudol I plant gael chwarae

- Information for those in need
- Support young carers
- Support flying start programme
- Take seriously our statutory responsibility for children to be allowed to play

# Awyrgylch Addysg Orau ac effeithiol/ Best and most efficient education environment

- Targedu blynyddoedd cynnar ac ymdrochi
- Foderneiddio Stoc
- Clybiau Brecwast
- Amrwyiaeth o cynhaliaeth a chefnogaeth

- Target early education and completeness
- Modernise Stock
- Breakfast Clubs
- Variety of provision and support

# Cyfleoedd I weithio/ Opportunities to work

- Datblygu a darparu gweithgaredd I greu swyddi
- Ysgogi pobl ifanc I gynyddu hyder a sgilliau
- Mentora, uwchsgilio a Provide Advice

- Develop and provide activities to create jobs
- Encourage young people to increase confidence and skills
- Mentor, Upskill & Provide advice

# Pobl iach, saff ac annibynnol/ People are healthy, safe and independent

- Cyfleusterau a gweithgareddau gorau
- Diogelu amgylchedd byw a gweithio
- Cefnogi plant I fyw gartref
- Cynyddu nifer hybiau
- Darparu tai o safon

- Best Facilities and activities
- Safeguard best work and living environment
- Support children to live at home
- Increase number of hubs
- Provide good housing

# Gwireddu hyn/ Achieving this

- Gwasanaeth cywir ar yr adeg cywir
- Partneriaid au cyfrifoldeb hwy
- Gwybodaeth da I staff a trigolion

- Right Service, right time
- Partners and their responsibility
- Good information for staff and residents

# Lleihau sgil effeithiau Tlodi / Reducing effect of Poverty

www.ynysmon.gov.uk
www.anglesey.gov.uk

CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

# Gweithredoedd Presennol/ Current Activities

•

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Pwyllgor Gwaith** |
| **Dyddiad:** | **17 Chwefror 2020** |
| **Pwnc:** | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Cyng Llinos Medi** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Lynn Ball**<br>**Pennaeth Swyddogaeth – Busnes y Cyngor / Swyddog Monitro** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Rhif Ffôn:<br>E-bost: | **Huw Jones, Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd**<br>**01248 752108**<br>**JHuwJones@ynysmon.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | **Amherthnasol** |

**A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau**

Yn unol â'i Gyfansoddiad, mae'n ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi blaen raglen waith a'i diweddaru'n rheolaidd. Cyhoeddir blaen raglen Waith y Pwyllgor Gwaith yn fisol er mwyn galluogi Aelodau'r Cyngor a'r cyhoedd weld pa benderfyniadau allweddol y mae'r Pwyllgor yn debygol o'u gwneud dros y misoedd i ddod.

Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith:

gadarnhau'r blaen raglen waith atodol ar gyfer y cyfnod **Mawrth – Hydref 2020;**

Adnabod unrhyw faterion ar gyfer cael mewnbwn penodol ac ymgynghoriad gyda Phwyllgorau Sgriwtini'r Cyngor a chadarnhau'r angen i'r Pwyllgorau Sgriwtini ddatblygu eu rhaglenni gwaith i gefnogi rhaglen waith y Pwyllgor Gwaith;

Nodi bod blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith yn cael ei diweddaru'n fisol a'i chyflwyno fel eitem safonol yn fisol i'r Pwyllgor Gwaith.

** Allwedd i'r Categoriau:*
*Strategol – cynlluniau a mentrau allweddol corfforaethol*
*Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*Er gwybodaeth*

| **B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?** |
|---|
| - |

| **C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?** |
|---|
| Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith cyn cyhoeddi pob diweddariad er mwyn cryfhau atebolrwydd a threfniadau blaengynllunio. |

| **D – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** |
|---|
| Ydyw. |

| **DD – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** |
|---|
| Amherthnasol. |

| **E – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | | **Beth oedd eu sylwadau?** |
|---|---|---|
| 1 | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | Mae blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith yn cael ei thrafod yn fisol yng nghyfarfodydd y Penaethiaid Gwasanaeth (eitem safonol ar y rhaglen). Fe'i cylchredir yn rheolaidd hefyd i Benaethiaid Gwasanaeth er mwyn ei diweddaru. |
| 2 | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | |
| 3 | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | |
| 5 | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| 6 | **Eiddo** | |
| 7 | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)** | |
| 8 | **Sgriwtini** | Cynhelir cyd-drafodaeth yn fisol ar raglenni gwaith y Pwyllgor Gwaith a'r ddau Bwyllgor Sgriwtini, a hynny er mwyn sicrhau aliniad rhyngddynt. |
| 9 | **Aelodau Lleol** | Amherthnasol. |
| 10 | **Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill** | Amherthnasol. |

** Allwedd i'r Categoriau:*
*Strategol – cynlluniau a mentrau allweddol corfforaethol*
*Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*Er gwybodaeth*

| F – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol) | | |
|---|---|---|
| 1 | Economaidd | |
| 2 | Gwrthdlodi | |
| 3 | Trosedd ac Anhrefn | |
| 4 | Amgylcheddol | |
| 5 | Cydraddoldebau | |
| 6 | Cytundebau Canlyniad | |
| 7 | Arall | |

| FF - Atodiadau: |
|---|
| Blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith: Mawrth – Hydref 2020. |

| G - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach): |
|---|
| |

*  *Allwedd i'r Categoriau:*
*Strategol – cynlluniau a mentrau allweddol corfforaethol*
*Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*Er gwybodaeth*

**BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH**
Cyfnod: Mawrth – Hydref 2020

Diweddarwyd 4 Chwefror 2020

Mae blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith yn galluogi Aelodau'r Cyngor a'r cyhoedd weld pa benderfyniadau allweddol y mae'r Pwyllgor yn debygol o'u gwneud dros y misoedd i ddod.

Mae modd i benderfyniadau gweithredol gael ei gwneud gan y Pwyllgor Gwaith llawn yn gweithredu fel corff cyfunol neu gan aelodau unigol o'r Pwyllgor Gwaith yn gweithredu trwy hawliau dirprwyiedig. Mae'r blaen raglen waith yn cynnwys gwybodaeth am y penderfyniadau a geisir, pwy fydd yn gwneud y penderfyniadau a phwy yw'r Swyddogion a'r Deilyddion portffolio arweiniol ar gyfer pob eitem.

Dylid nodi, fodd bynnag, bod y blaen raglen waith yn ddogfen hyblyg, gan nad oes modd gwybod am yr holl eitemau y bydd angen penderfyniad arnynt gymaint â hyn ymlaen llaw ac efallai bydd angen newid yr amserlen ar gyfer rhai materion er mwyn cwrdd â blaenoriaethau newydd ayyb. Oherwydd hyn, fe adolygir yn rheolaidd y rhestr o eitemau sydd wedi'u cynnwys.

Yn achlysurol, bydd angen cyflwyno adroddiadau am drafodion eiddo penodol, a hynny yn unol â Pholisi a Gweithdrefnau Rheoli Asedau. Oherwydd dylanwad y farchnad allanol, nid yw'n bosibl dynodi amseriad adroddiadau fel hyn ymlaen llaw.

Amlinellir blaenraglen waith y Pwyllgor Gwaith ar gyfer y cyfnod **Mawrth - Hydref 2020** ar y tudalennau dilynol.

**Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.**

** Allwedd:*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*

# BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Mawrth – Hydref 2020

Diweddarwyd 4 Chwefror 2020

| | Y pwnc a'i *gategori a<br>beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Mawrth 2020** | | | | | | |
| 1 | **Adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb 2018/19**<br><br>Cymeradwyo'r adroddiad. | Deilydd Portffolio Gwasanaethau Cymdeithasol | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Penderfyniad dirprwyiedig<br><br>Mawrth 2020 | |
| | | | | | | | |
| 2 | **Monitro Cyllideb Refeniw 2019/20 – Ch3 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | Panel Sgriwtini Cyllid<br>13 Chwefror 2020 | Pwyllgor Gwaith<br><br>2 Mawrth 2020 | |
| 3 | **Monitro Cyllideb Gyfalaf 2019/20 – Ch3 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | Panel Sgriwtini Cyllid<br>13 Chwefror 2020 | Pwyllgor Gwaith<br><br>2 Mawrth 2020 | |
| 4 | **Monitro Cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai 2019/20 – Ch3 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | Panel Sgriwtini Cyllid<br>13 Chwefror 2020 | Pwyllgor Gwaith<br><br>2 Mawrth 2020 | |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

## BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Mawrth – Hydref 2020

Diweddarwyd 4 Chwefror 2020

| | Y pwnc a'i *gategori a beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 5 | **Taliadau am Wasanaethau Di-Breswyl 2020/21**<br><br>Cymeradwyaeth. | Mae angen penderfyniad cyfunol gan fod y mater yn ymwneud ag ystyriaethau ariannol materol berthnasol. | Gwasanaethau Oedolion | Alwyn Jones Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>2 Mawrth 2020 | |
| 6 | **Ffi Safonol ar gyfer Cartrefi Preswyl y Cyngor Sir yn ystod 2020/21**<br><br>Cymeradwyaeth. | Mae angen penderfyniad cyfunol gan fod y mater yn ymwneud ag ystyriaethau ariannol materol berthnasol. | Gwasanaethau Oedolion | Alwyn Jones Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>2 Mawrth 2020 | |
| 7 | **Ffioedd Cartrefi Gofal y Sector Annibynnol 2020/21**<br><br>Cymeradwyaeth. | Mae angen penderfyniad cyfunol gan fod y mater yn ymwneud ag ystyriaethau ariannol materol berthnasol. | Gwasanaethau Oedolion | Alwyn Jones Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>2 Mawrth 2020 | |
| 8 | **Arian Wrth Gefn**<br><br>Diweddariad o'r sefyllfa mewn perthynas ag Arian Wrth Gefn. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol. | Adnoddau | Marc Jones Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | | Pwyllgor Gwaith<br><br>2 Mawrth 2020 | |



** Allwedd:*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*

**BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH**
Cyfnod: Mawrth – Hydref 2020

Diweddarwyd 4 Chwefror 2020

| | **Y pwnc a'i *gategori a** beth yw'r penderfyniad a geisir | **Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam** | **Gwasanaeth Arweiniol** | **Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau** | **Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)** | **Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi** | **Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 9 | **Strategaeth Ariannol Tymor Canolig a Chyllideb 2020/21 (S)**<br><br>Mabwysiadu cynigion terfynol i'w hargymell il'r Cyngor Sir. | Mae hyn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith gan ei fod yn dod o fewn Fframwaith Gyllideb y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | Panel Sgriwtini Cyllid 9 Ionawr a 13 Chwefror 2020<br><br>Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol 27 Chwefror 2020 | Pwyllgor Gwaith<br><br>2 Mawrth 2020 | Cyngor Sir 10 Mawrth 2020 |
| 10 | **Strategaeth Gyfalaf a Rhaglen Gyfalaf** | Mae hyn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith gan ei fod yn dod o fewn Fframwaith Gyllideb y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | | Pwyllgor Gwaith<br><br>2 Mawrth 2020 | Cyngor Sir 10 Mawrth 2020 |
| 11 | **Strategaeth Rheoli Trysorlys 2020/21**<br><br>Mabwysiadu strategaeth ar gyfer y flwyddyn ariannol newydd. | Mae hyn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith gan ei fod yn dod o fewn Fframwaith Gyllideb y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | | Pwyllgor Gwaith<br><br>2 Mawrth 2020 | Cyngor Sir 10 Mawrth 2020 |
| 12 | **Cyllideb Gyfalaf 2020/21** | Mae hyn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith gan ei fod yn dod o fewn Fframwaith Gyllideb y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | Panel Sgriwtini Cyllid 9 Ionawr a 13 Chwefror 2020<br><br>Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol 27 Chwefror 2020 | Pwyllgor Gwaith<br><br>2 Mawrth 2020 | Cyngor Sir 10 Mawrth 2020 |

*  *Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

## BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Mawrth – Hydref 2020

Diweddarwyd 4 Chwefror 2020

| | **Y pwnc a'i *gategori a** beth yw'r penderfyniad a geisir | **Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam** | **Gwasanaeth Arweiniol** | **Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau** | **Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)** | **Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi** | **Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | |
| 13 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>23 Mawrth 2020 | |
| 14 | **Cerdyn Sgôr Corfforaethol – Ch3, 2019/20 (S)**<br><br>Adroddiad monitro perfformiad chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am berfformiad cyfredol ar draws y Cyngor. | Trawsnewid Corfforaethol | Carys Edwards<br>Pennaeth Proffesiwn – AD a Thrawsnewid<br><br>Cyng Dafydd Rhys Thomas | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol<br>9 Mawrth 2020 | Pwyllgor Gwaith<br><br>23 Mawrth 2020 | |
| 15 | **Polisi Taliadau Tai Dewisol**<br><br>Cymeradwyo newidiadau i'r polisi. | | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | | Pwyllgor Gwaith<br><br>23 Mawrth 2020 | |
| 16 | **Cynllun Datblygu Darpariaeth Hamdden ar gyfer Cenedlaethau'r Dyfodol** | Mae angen cymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith gan fod y cynllun hamdden arfaethedig yn cynnwys ystyriaethau buddsoddi ariannol | Rheoleiddio a Datblygu Economaidd | Dylan J Williams<br>Dirprwy Brif Weithredwr<br><br>Cyng Carwyn Jones | Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio<br>10 Mawrth 2020<br><br>Panel Sgriwtini Cyllid<br>13 Chwefror 2020 | Pwyllgor Gwaith<br><br>23 Mawrth 2020 | |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

# BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Mawrth – Hydref 2020

Diweddarwyd 4 Chwefror 2020

| | Y pwnc a'i *gategori a beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 17 | **Arolwg AGC o Wasanaethau Plant yn Ynys Môn – Cynllun Gwella – Cynnydd 6 mis** | | Gwasanaethau Plant | Fôn Roberts<br>Pennaeth Gwasanaethau Plant a Theuluoedd<br><br>Cyng Llinos Medi | Panel Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol<br>18 Chwefror 2020<br><br>Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol<br>9 Mawrth 2020 | Pwyllgor Gwaith<br><br>23 Mawrth 2020 | |
| 18 | **Protocol Siarad Cyhoeddus mewn Pwyllgorau Sgriwtini**<br><br>Argymell bod y Cyngor yn mabwysiadu'r Protocol. | | Busnes y Cyngor | Lynn Ball<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro<br><br>Cyng Dafydd Rhys Thomas | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol<br>9 Mawrth 2020<br><br>Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio<br>10 Mawrth 2020 | Pwyllgor Gwaith<br><br>23 Mawrth 2020 | Cyngor Sir<br>19 Mai 2020 |
| | **Ebrill 2020** | | | | | | |
| 19 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>27 Ebrill 2020 | |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

## BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Mawrth – Hydref 2020

Diweddarwyd 4 Chwefror 2020

| | **Y pwnc a'i *gategori a** beth yw'r penderfyniad a geisir | **Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam** | **Gwasanaeth Arweiniol** | **Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau** | **Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)** | **Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi** | **Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | **Mai 2020** | | | |
| 20 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>18 Mai 2020 | |
| | | | | **Mehefin 2020** | | | |
| 21 | **Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg 2019/20**<br><br>Cymeradwyo'r adroddiad. | Deilydd Portffolio sydd â chyfrifoldeb am yr iaith. | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Ieuan Williams | I'w gadarnhau | Penderfyniad dirpwyiedig<br><br>Mehefin 2020 | |
| | | | | | | | |
| 22 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>15 Mehefin 2020 | |
| 23 | **Cerdyn Sgôr Corfforaethol – Ch4, 2019/20 (S)**<br><br>Adroddiad monitro perfformiad chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am berfformiad cyfredol ar draws y Cyngor. | Trawsnewid Corfforaethol | Carys Edwards<br>Pennaeth Proffesiwn – AD a Thrawsnewid<br><br>Cyng Dafydd Rhys Thomas | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol<br>Dyddiad i'w gadarnhau | Pwyllgor Gwaith<br><br>15 Mehefin 2020 | |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

## BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Mawrth – Hydref 2020

Diweddarwyd 4 Chwefror 2020

| | **Y pwnc a'i *gategori a** beth yw'r penderfyniad a geisir | **Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam** | **Gwasanaeth Arweiniol** | **Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau** | **Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)** | **Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi** | **Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 24 | **Monitro Cyllideb Refeniw 2019/20 – Ch4 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarfwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | Panel Sgriwtini Cyllid<br>Dyddiad i'w gadarnhau | Pwyllgor Gwaith<br><br>15 Mehefin 2020 | |
| 25 | **Monitro Cyllideb Gyfalaf 2019/20 – Ch4 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | Panel Sgriwtini Cyllid<br>Dyddiad i'w gadarnhau | Pwyllgor Gwaith<br><br>15 Mehefin 2020 | |
| 26 | **Monitro Cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai 2019/20 – Ch4 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | Panel Sgriwtini Cyllid<br>Dyddiad i'w gadarnhau | Pwyllgor Gwaith<br><br>15 Mehefin 2020 | |
| | | | | **Gorffennaf 2020** | | | |
| 27 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>13 Gorffennaf 2020 | |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

# BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Mawrth – Hydref 2020

Diweddarwyd 4 Chwefror 2020

| | Y pwnc a'i *gategori a beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | **Medi 2020** | | | |
| 28 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>28 Medi 2020 | |
| 29 | **Cerdyn Sgôr Corfforaethol – Ch1, 2020/21 (S)**<br><br>Adroddiad monitro perfformiad chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am berfformiad cyfredol ar draws y Cyngor. | Trawsnewid Corfforaethol | Carys Edwards<br>Pennaeth Proffesiwn – AD a Thrawsnewid<br><br>Cyng Dafydd Rhys Thomas | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol<br>Dyddiad i'w gadarnhau | Pwyllgor Gwaith<br><br>28 Medi 2020 | |
| 30 | **Monitro Cyllideb Refeniw 2020/21 – Ch1 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarfwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | Panel Sgriwtini Cyllid<br>Dyddiad i'w gadarnhau | Pwyllgor Gwaith<br><br>28 Medi 2020 | |
| 31 | **Monitro Cyllideb Gyfalaf 2020/21 – Ch1 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | Panel Sgriwtini Cyllid<br>Dyddiad i'w gadarnhau | Pwyllgor Gwaith<br><br>28 Medi 2020 | |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

## BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Mawrth – Hydref 2020

Diweddarwyd 4 Chwefror 2020

| | Y pwnc a'i *gategori a beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 32 | **Monitro Cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai 2020/21 – Ch1 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | Panel Sgriwtini Cyllid Dyddiad i'w gadarnhau | Pwyllgor Gwaith<br><br>28 Medi 2020 | |
| **October 2020** | | | | | | | |
| 33 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Huw Jones Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>26 Hydref 2020 | |



** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

This page is intentionally left blank